
Gwella darpariaeth symudol

Cynnig darpariaeth symudol well drwy'r ffordd rydym ni'n rheoli'r tonnau awyr

Trosolwg

- 1.1 Mae mynediad i wasanaethau symudol dibynadwy wedi dod yn hanfodol i'r ffordd mae pobl yn byw ac yn gweithio ar draws y DU.
- 1.2 Wrth i bobl ddefnyddio mwy a mwy o apiau a gwefannau i wyllo fideos, gwranddo ar gerddoriaeth a chyfathrebu wrth symud o le i le, mae faint o ddata symudol rydym yn ei ddefnyddio wedi cynyddu tua deng gwaith dros y pum mlynedd diwethaf.¹
- 1.3 Mae'n rhaid i rwydweithiau ffonau symudol ddatblygu ar yr un cyflymder ag anghenion pobl a busnesau, er mwyn darparu'r capasiti rhwydwaith a'r ddarpariaeth mae eu hangen arnynt.
- 1.4 Mae hwn yn faes blaenoriaeth i Ofcom. Ein prif ddyletswydd yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y DU, ac mae gennym ddyletswydd benodol i sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu ar gael yn eang. Ein nod yw sicrhau darpariaeth symudol gynhwysfawr i bobl ym mhob cwr o'r DU. Hoffem weld darpariaeth symudol o ansawdd da,² gan ddewis o weithredwyr rhwydwaith symudol, ble bynnag mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn teithio.
- 1.5 Mae gan Ofcom, llywodraethau a chwmnïau symudol ran bwysig i'w chwarae o ran cyflawni'r nod hwn. Rydym ni wedi cyflwyno rheolau newydd yn barod sy'n caniatáu i bobl ddefnyddio offer arbennig i wella eu signal symudol yn eu cartrefi. Rydym ni hefyd wedi cefnogi'r Llywodraeth wrth wneud newidiadau i'r gyfraith sy'n ei gwneud hi'n haws ac yn rhatach i gwmnïau symudol adeiladu mastiau a gosod offer.
- 1.6 Ofcom sy'n rheoli sbectrwm y DU – y tonnau awyr a ddefnyddir gan rwydweithiau symudol. Heddiw, rydym wedi cyhoeddi camau pellach ar sut rydym yn bwriadu gwella darpariaeth symudol a pharatoi'r ffordd i gwmnïau arloesi a manteisio ar dechnolegau di-wifr newydd – gan gynnwys 5G, y genhedlaeth nesaf o dechnoleg symudol.

Sicrhau darpariaeth i gymunedau gwledig

- 1.7 Rydym ni'n cyflwyno cynlluniau diwygiedig i arwerthu mwy o sbectrwm mewn dau 'fand' amledd. Bydd hyn yn helpu i wella capasiti'r gwasanaethau symudol presennol, ac yn cefnogi technolegau symudol 5G yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Yn ein Hadolygiad Cyfathrebu Digidol yn 2016 roeddem wedi ymrwymo i edrych ar ffyrdd o wella darpariaeth symudol drwy'r arwerthiant hwn, ac rydym ni wedi bod yn ymgynghori ar sut i wneud hynny.

¹ Ofcom, adroddiad rhyngweithiol ar y Farchnad Gyfathrebu 2018: <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/multi-sector-research/cmr/cmr-2018/interactive>.

² Rydym ni'n diffinio darpariaeth dda fel cryfder signal lle bydd bron pob galwad ffôn 90 eiliad o hyd yn debygol o ddod i ben heb ymyrraeth; a bydd cyflymder cysylltiad o 2 Mbit yr eiliad o leiaf ar gyfer bron pob cysylltiad 4G. Mae hyn yn ddigon cyflym i bori'r rhyngwyd a gwyllo fideos symudol yn ddi-rwystr.

- 1.8 Drwy'r arwerthiant, gallwn helpu nifer o gymunedau gwledig i gael darpariaeth symudol o'r un ansawdd â'r hyn mae pobl yn ei ddisgwyl yn nhrefi a dinasoedd y DU.
- 1.9 Mae'r pedwar gweithredydd rhwydwaith symudol – BT/EE, O2, Three a Vodafone – yn parhau i wella argaeledd; ond rydym ni'n dal i fod ymhell o ddarpariaeth gynhwysfawr ar draws y DU. Yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2018, a gyhoeddwyd heddiw, rydym ni'n adrodd bod gan 66% o arwynebedd tir y DU ddarpariaeth 4G o ansawdd da gan bob un o'r pedwar gweithredwr, tra bod diffyg darpariaeth 4G o ansawdd da gan unrhyw weithredwr yn 9% ohono.
- 1.10 Wrth i rwydweithiau symudol ehangu, mae ymestyn y ddarpariaeth yn golygu codi mwy o fastiau symudol mewn rhannau mwy anghysbell o'r DU, gan gynnwys ardaloedd lle gall y dirwedd naturiol wneud hyn yn anodd. Yn aml gall adeiladu trosglwyddyddion yn yr ardaloedd anghysbell hyn fod yn ddrud ac yn anhyfyw'n fasnachol i gwmnïau symudol.
- 1.11 Felly, er mwyn sicrhau bod mwy o bobl mewn ardaloedd gwledig yn cael gwasanaethau symudol dibynadwy, rydym ni'n cynnig gostyngiad i'r cwmnïau sy'n bidio yn yr arwerthiant ar rywfaint o'r sbectrwm, yn gyfnewid am ymrwymiad rhwymol i wella'r ddarpariaeth yn sylweddol.
- 1.12 Rydym ni wedi cynnig cynnwys dwy ddyletswydd o ran darpariaeth yn ein harwerthiant, a fyddai'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddau weithredwr symudol ymestyn darpariaeth 4G o ansawdd da i o leiaf 90% o ardal ddaeryddol y DU.
- 1.13 Er mwyn sicrhau bod y gwelliannau hyn yn cael eu targedu at yr ardaloedd lle byddan nhw'n cael yr effaith fwyaf, cynigiwn y dylai pob gweithredwr wneud y canlynol wrth gyflawni'r targedau hyn:
- rhoi darpariaeth awyr agored dda i o leiaf 140,000 o adeiladau ychwanegol. Bydd hyn yn sicrhau bod gweithredwyr yn canolbwyntio ar wella darpariaeth mewn cymunedau gwledig yn hytrach nag ardaloedd lle nad oes neb yn byw;
 - adeiladu o leiaf 500 o drosglwyddyddion newydd. Bydd hyn yn sicrhau bod gweithredwyr yn trawsnewid darpariaeth mewn ardaloedd lle nad yw ar gael, yn hytrach na chyflawni'r rheolau drwy roi hwb i signalau presennol; a
 - chwrrdd hefyd â thargedau i sicrhau darpariaeth dda ar gyfer cyfran benodol o'r arwynebedd tir yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.
- 1.14 Byddai'r dyletswyddau hyn yn gwella ansawdd y ddarpariaeth symudol a gynigir gan ddau weithredwr mewn ardaloedd lle mae cannoedd o filoedd o bobl yn byw ac yn gweithio, yn ogystal â rhoi darpariaeth dda i filoedd o gilometrau ychwanegol ar rwydwaith ffyrdd y DU a chynyddu cyrhaeddiad daeryddol y ddau rwydwaith hynny ar draws y DU. Fel amod y trwyddedau hyn, mae'n rhaid bodloni'r dyletswyddau darpariaeth o fewn pedair blynedd i'r arwerthiant.

Rhannu sbectrwm i gefnogi arloesedd a gwella cysylltedd

- 1.15 Heddiw, rydym ni hefyd yn cyhoeddi cynlluniau i ganiatáu i rai bandiau sbectrwm gael eu rhannu gan wahanol ddefnyddwyr, er mwyn helpu i wella'r ddarpariaeth mewn ardaloedd â gwasanaeth gwael a chreu cyfleoedd am arloesedd ar draws economi'r DU.

- 1.16 Gallai rhai o'r bandiau sbectrwm hyn gynnal ystod gynyddol o ddefnydd o bob math yn y dyfodol, mewn ardaloedd mor amrywiol â logisteg, mwynloddio, amaethyddiaeth a dyfeisiau wedi'u cysylltu a fydd yn ffurfio 'Rhyngrywd Pethau'.
- 1.17 Gallai sefydliadau a grwpiau â diddordeb mewn adeiladu a gweithredu eu rhwydweithiau symudol eu hunain ddefnyddio'r bandiau eraill. Gallai sefydliad sefydlu rhwydwaith preifat, i roi darpariaeth mewn ardal gyfyngedig. Neu gallai gytuno â gweithredwyr symudol i ganiatáu i'w cwsmeriaid ddefnyddio ei rwydwaith, sydd i bob pwrpas yn ymestyn eu darpariaeth.
- 1.18 Rydym hefyd yn cynnig caniatáu i eraill ddefnyddio sbectrwm sydd wedi'i drwyddedu i weithredwyr rhwydwaith symudol ar hyn o bryd, ond ddim yn cael ei ddefnyddio ganddynt. Gallai hyn fod yn arbennig o addas ar gyfer cynlluniau gan gymunedau lleol neu gwmnïau i roi darpariaeth symudol dda mewn ardaloedd lle mae prinder ar hyn o bryd. Ni allwn eto asesu'r galw am sbectrwm i gefnogi'r math yma o gynlluniau; ond gallan nhw wneud gwahaniaeth pwysig i bobl yn y cymunedau lleol lle maen nhw wedi'u lleoli.
- 1.19 Gallai'r bandiau sbectrwm rydym ni'n bwriadu eu hagog i'w rhannu hefyd gael eu defnyddio at ddiben darparu band eang di-wifr sefydlog, yn hytrach na darpariaeth symudol. Mae di-wifr sefydlog yn golygu cysylltiad band eang sy'n defnyddio'r tonnau awyr i gludo data o drosglwyddydd i gartref neu fusnes, yn hytrach na defnyddio ceblau copr neu ffibr yr holl ffordd i'r adeilad. Gallai hyn fod yn ddatblygiad technolegol pwysig i gysylltu cartrefi a busnesau mewn ardaloedd lle mae'n arbennig o anodd rhoi ceblau yn y ddaear. Rydym yn amcangyfrif nad oes gan 39,000 o gartrefi a busnesau yn y DU fynediad at naill ai fand eang sefydlog teilwng neu ddarpariaeth symudol da ar hyn o bryd.

Rhagor o ddewisiadau ar gyfer gwella darpariaeth symudol

- 1.20 Bydd y dyletswyddau darpariaeth rydym wedi'u cynnig yn cyflawni gwelliannau pwysig, ond nid ydyn nhw'n cynnig yr ateb i gyd o ran gwella'r ddarpariaeth symudol.
- 1.21 Ym mis Medi, cyhoeddodd Ofcom gyngor i Lywodraeth y DU ar rai dewisiadau pellach, y tu hwnt i'n gofynion darpariaeth newydd. Fe wnaethom nodi pedwar prif arf: diwygio cynllunio a mesurau eraill i leihau'r gost o adeiladu a gweithredu mastiau symudol, y gallai'r DU a'r llywodraethau datganoledig eu gwneud; cytundebau rhwng gweithredwyr i rannu eu seilwaith symudol; trefniadau crwydro mewn ardaloedd gwledig; neu gymhorthdal cyhoeddus i dalu am ddarpariaeth newydd. Gellid defnyddio'r dewisiadau hyn gyda'i gilydd.
- 1.22 Mae rhai i'r llywodraethau eu hystyried, tra gallai gweithredwyr symudol roi rhai eraill ar waith yn fasnachol. Er enghraifft, gallai gweithredwyr ganiatáu i'w cwsmeriaid ddefnyddio rhwydweithiau ei gilydd. Byddai hyn yn ymdrin â 'mannau digyswllt rhannol' – ardaloedd lle mae darpariaeth ar gael gan rai o'r gweithredwyr, ond nid gan bob un.
- 1.23 Rydym wedi cynnig yn ein hymgyngoriad y byddai gweithredwyr symudol yn gallu bodloni ein gofynion darpariaeth yn rhannol drwy gael cytundebau crwydro gyda'i gilydd, neu gyda thrydydd partiön. Byddai hyn yn cynyddu'r cymhellion iddyn nhw gydwethredu.

1.24 Rydym hefyd yn edrych ar ba mor bell y gallai technolegau newydd helpu i wella darpariaeth symudol mewn ardaloedd gwledig. Byddwn ni'n gweithio gyda'r llywodraethau a diwydiant i weld sut y gallai datblygiadau arloesol newydd, gan gynnwys 5G, roi darpariaeth mewn ardaloedd sy'n anoddach eu cyrraedd. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion yn ein datganiad ar yr Adroddiad Blynyddol yn y gwanwyn 2019.